**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Awst 2023

Annwyl Peredur,

Bu ichi godi mater yn ymwneud â lwfansau treth incwm a llusgiad cyllidol yn ystod fy sesiwn cwestiynau llafar ar 12 Gorffennaf. Dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch gydag ymateb.

Byddaf yn nodi'n gyntaf beth sydd wedi digwydd gyda'r lwfansau a'r trothwyon treth incwm. Cafodd y lwfans personol treth incwm a'r terfyn cyfradd sylfaenol eu rhewi rhwng 2019-20 a 2020-21 ond yna gwnaethant gynyddu yn unol â chwyddiant CPI rhwng 2020-21 a 2021-22. Ers hynny, mae'r ddau drothwy wedi'u rhewi a disgwylir iddynt aros ar yr un lefel tan 2027-28. Arhosodd trothwy'r gyfradd ychwanegol yn £150,000 ers ei gyflwyno yn 2010 tan fis Mawrth 2023 - ni chafodd ei gynyddu  erioed yn unol â chwyddiant. Ym mis Ebrill eleni cafodd y trothwy ei leihau i £125,140.

Mae'n debygol bod rhewi'r lwfans personol a'r terfyn cyfradd sylfaenol wedi arwain at fwy o lusgiad cyllidol yng nghyfanswm refeniw treth incwm rhwng 2019-20 a 2020-21 a rhwng 2021-22 a 2022-23. Er hynny, gan fod Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn cyfrif am 10 ceiniog yn y bunt ym mhob band treth, maent ar hyn o bryd yn dreth cyfradd wastad uwchlaw'r lwfans personol. Yr unig effaith y mae llusgiad cyllidol uniongyrchol yn ei chael ar refeniw CTIC, felly, yw drwy'r lwfans personol wedi'i rewi.

Nid oes niferoedd cyhoeddedig ar effaith rhewi lwfansau a throthwyon ar refeniw treth incwm yng Nghymru, nac yn benodol ar refeniw CTIC. Er hynny, bydd y polisi yn tueddu i gynyddu refeniw wrth i gyflogau gynyddu. Mae'n wir hefyd y bydd y lwfansau a'r trothwyon wedi'u rhewi yn cynyddu refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a fydd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiad i'r grant bloc.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o refeniw trethi datganoledig yn ei phroses o bennu cyllidebau. Mae, felly, yn cymryd i ystyriaeth yn llawn effaith ddisgwyliedig rhewi lwfans personol treth incwm. Fel y nodir, am fod rhewi'r trothwy yn effeithio hefyd ar refeniw yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, byddant yn cynyddu'r addasiad i'r grant bloc sy'n gysylltiedig â CTIC. Felly bydd effaith gyllidebol net rhewi'r trothwy gryn dipyn yn llai na'r cynnydd i gyfraddau Cymru yn unig. Wedi dweud hynny, mae rhagolygon diweddaraf OBR yn awgrymu bod refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn debygol o dyfu'n gyflymach na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fel y nododd OBR: “Disgwylir i gyfran Cymru o dreth incwm gynyddu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a hynny yn rhannol gan fod y lwfans personol wedi'i rewi yn codi mwy o refeniw yn gyfrannol yng Nghymru nag yn y DU”.

Gwnaethoch godi'r posibilrwydd y byddai'r Senedd yn gallu pennu bandiau treth penodol i Gymru. Byddai hyn yn golygu ceisio pwerau pellach, tebyg i'r rhai yn yr Alban lle mae treth incwm di-ddifidend nad yw'n gynilion wedi'i datganoli yn llawn. Er y gallai mynd ar drywydd datganoli'r pwerau hyn fod yn ystyriaeth i Gymru yn y dyfodol, byddai cryn risg ac anwadalrwydd ychwanegol sylweddol i gyllideb Llywodraeth Cymru ynghlwm wrth yr ysgogiadau polisi ychwanegol. Pe bai'r model yr Alban yn cael ei ddilyn, ni fyddai'r gallu i amrywio'r lwfans personol yn cael ei ddatganoli o hyd. Er na chynyddodd Llywodraeth y DU drothwyon yn unol â chwyddiant, dylid nodi y byddai gwneud hyn hefyd yn debygol iawn o arwain at ostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

Rebecca

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government